
# Bwrsariaeth Feddygol a Deintyddol

## Cwestiynau Cyffredin

### Adrannau:

1. Cymhwysedd
2. Ymholiadau am Daliadau
3. Treuliau ar gyfer Lleoliadau Ymarfer



Medi 2025

| Cwestiynau | | Ymateb |
|---|---|---|
| **1. Cymhwysedd** | | |
| | Dw i’n dod o Gymru, ond dw i'n ystyried dilyn cwrs yn Lloegr. A fyddech chi'n ariannu hyn? | Byddem - ond dim ond ar gyfer cyrsiau Meddygaeth neu Ddeintyddiaeth.<br><br>Pe baech chi eisiau cofrestru ar gwrs Nyrsio yn Lloegr, er enghraifft, ni fyddem yn gallu rhoi cefnogaeth ariannol i chi. |
| | Pryd alla i wneud cais am fy nghwrs a ariennir gan fwrsariaeth y GIG? | Bydd eich prifysgol yn rhoi dyddiadau'r tymor ar gyfer eich cwrs. Pan fyddant yn cael eu derbyn, bydd Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr yn nodi'r dyddiadau ar ein system. Os na allwch ddod o hyd i'ch cwrs/Prifysgol ar y system, ni fydd dyddiadau'r tymor wedi dod i law. Cysylltwch â ni gyda’ch ymholiadau<br><br>Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau. |
| | Os ydw i’n astudio Meddygaeth neu Ddeintyddiaeth, ydw i’n gaeth i Delerau ac Amodau GIG Cymru? | Nac ydych, nid oes rhaid i Fyfyrwyr Meddygol a Deintyddol ymrwymo i Delerau ac Amodau GIG Cymru. Wrth gofrestru, bydd gofyn i chi ateb y cwestiwn hwn:<br><br>‘A ydych chi’n dilyn cwrs i ddod yn feddyg neu’n ddeintydd?’<br><br>Os atebwch chi 'Ydw', ni fydd gofyn i chi ymrwymo i'r Telerau ac Amodau. |
| | A alla’i wneud cais i fynd ar gwrs os oes gen i Radd yn barod? | Os oes gennych radd yn barod, **na chafodd ei hariannu gan GIG Cymru**, byddwch yn gymwys i wneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru.<br><br>Os ydych chi eisoes wedi derbyn Bwrsariaeth GIG Cymru ar gyfer Gradd Feddygol, yna bydd angen i chi chwilio am gyllid arall os ydych chi am gofrestru ar gwrs Meddygol newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ym mha flwyddyn o fy nghwrs Meddygol neu Ddeintyddol y caf wneud cais am fwrsariaeth gan GIG Cymru? | Os ydych chi'n fyfyriwr meddygol neu ddeintyddol sy'n byw yng Nghymru, dylech wneud eich cais i Wasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn rydych i fod i gael cyllid gan GIG Cymru. Peidiwch â gwneud cais ar ddechrau y cwrs.<br><br>Bydd pa flwyddyn, neu flynyddoedd, y byddwn yn eu hariannu yn dibynnu ar eich cwrs ac ar yr amgylchiadau, ond bydd yr isod yn rhoi syniad i chi: -<br><br>**Cwrs cyn cofrestru pum mlynedd neu fwy**<br><br>Fel arfer, bydd modd i fyfyrwyr meddygol / deintyddol wneud cais am gyllid gan GIG Cymru o'u pumed flwyddyn ymlaen. Nid yw'r flwyddyn rydych chi'n astudio ynddi ar eich rhaglen feddygol / deintyddol yn berthnasol yn hynny o beth.<br><br>Gall y blynyddoedd a ystyrir yn flynyddoedd 'astudio' gynnwys blwyddyn ryngosod (*intercalation*) os ydych chi'n astudio graddau Baglor neu Feistr, a blwyddyn sylfaen os oedd hyn yn rhan annatod o'ch cwrs. Fodd bynnag, fyddwn ni ddim yn cyfrif unrhyw flynyddoedd a wnaethoch chi ddwywaith. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid ichi aros am flwyddyn arall cyn y gallwch wneud cais inni os byddwch yn ail-wneud un o'r blynyddoedd nad oedd yn cael ei hariannu gan y GIG.<br><br>Os ydych chi wedi'ch eithrio o flynyddoedd cynharach y radd feddygol / deintyddol israddedig, waeth pa flwyddyn y dechreuodd y cwrs, bydd modd ichi wneud cais i'r GIG am gyllid o bumed flwyddyn y cwrs ymlaen.<br><br>**Cwrs cyn cofrestru carlam ar gyfer graddedigion sydd ag addysg flaenorol berthnasol.**<br><br>Os ydych chi'n gwneud y cwrs carlam mynediad i raddedigion pedair blynedd, gallwch wneud cais am gyllid gan y GIG o ail flwyddyn y cwrs ymlaen. |

| | | |
|---|---|---|
| | A fydd gen i hawl i gael y Lwfans Wythnosau Ychwanegol yn ystod fy nghwrs Meddygol / Deintyddol? | Os yw'r flwyddyn academaidd yn cynnwys mwy na 30 wythnos o astudio cymwys, efallai y bydd gennych hawl i gael y Lwfans Wythnosau Ychwanegol.<br><br>Bydd angen i'r brifysgol sy'n cynnal eich cwrs roi dyddiadau'r tymhorau i ni. Pan fyddwn wedi derbyn ac wedi prosesu dyddiadau'r tymhorau, byddwn yn ychwanegu unrhyw Lwfans Wythnosau Ychwanegol a ddyfarnir i chi.<br><br>Cofiwch fod y Lwfans Wythnosau Ychwanegol yn rhan o elfen prawf modd y fwrsariaeth. |
| | A fydd gen i hawl i gyllid os byddaf yn gwneud rhan o fy nghwrs Meddygol / Deintyddol am yr eildro? | Dim ond os yw'r flwyddyn sy'n cael ei hailadrodd yn un sy'n cael ei chyllido gan y GIG y cewch wneud cais am ragor o gyllid, gan gynnwys ffioedd dysgu.<br><br>Er enghraifft, pe baech chi'n methu'r bedwaredd flwyddyn ar gwrs meddygol / deintyddol 5 Mlynedd, fyddwn ni ddim yn ystyried rhoi cyllid ichi gan y byddech yn ail-wneud blwyddyn sydd ddim yn cael ei chyllido gan y GIG. Os ydych yn ail-wneud blwyddyn cyn bod hawl gennych i wneud cais am fwrsariaeth, ni fydd y flwyddyn honno yn cyfrif tuag at y pum mlynedd o astudio sy'n ofynnol.<br><br>Mae'r un rheolau'n berthnasol yn achos y rhaglen fynediad 4 Blynedd, lle na fyddai modd inni ddarparu cyllid pe baech chi'n ail-wneud blwyddyn 1.<br><br>Os ydych yn ailadrodd blwyddyn a ariennir gan y GIG, yr unig adegau y cewch eich ystyried ar gyfer cyllid estynedig yw pan fo amgylchiadau **esgusodol**. Bydd angen i'ch Prifysgol gwblhau BUR 103 - Cais am Estyniad sydd yn amlinellu'r amgylchiadau yn ogystal â darparu tystiolaeth ddogfennol ategol i'w hystyried. Yna, caiff y ffurflenni BUR eu danfon i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo cyn y gallwn awdurdodi cyllid ychwanegol. |
| **2. Ymholiadau am Daliadau** | | |
| | Pwy sy'n talu'r ffioedd dysgu ar gyfer cwrs meddygol neu ddeintyddol? | Mae Llywodraeth Cymru yn talu cyfraniad tuag at gost eich ffioedd dysgu yn syth i'ch prifysgol neu ysgol Feddygol / Ddeintyddol ar gyfer blynyddoedd academaidd y mae gennych hawl i dderbyn cyllid gan y GIG ar eu cyfer.<br><br>Bydd y benthyciad ffioedd dysgu uchaf yn cynyddu o fis Medi 2026 i £9,790 i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru sy'n astudio yng Nghymru a Lloegr.<br><br>**Ar gyfer Meddygaeth i Raddedigion (GEM)** y cyfraniad at y ffioedd i fyfyrwyr a ariennir gan Fwrsariaeth y GIG fydd £4000 ar gyfer y flwyddyn academaidd 25/26 ymlaen.<br><br>Dylech ddangos eich Hysbysiad o Ddyfarniad (NOA) i'ch Prifysgol i brofi bod gennych yr hawl ar gyfer y cyfraniad hwn. Yna gall y brifysgol anfonebu Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr am y gost. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Unwaith y bydd yr anfoneb wedi'i hadolygu, bydd y tîm Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr yn ei hanfon ymlaen i Lywodraeth Cymru i'w phrosesu<br><br>Er mwyn bod â hawl, mae’n rhaid eich bod yn mynychu’r cwrs hyd at, ac yn cynnwys, y cyntaf o Ragfyr yn ystod y flwyddyn academaidd berthnasol, felly fyddwn ni ddim yn derbyn unrhyw anfonebau a ddaw i law cyn hyn. |
| | Pwy sy’n gyfrifol am dalu Bwrsariaeth Feddygol a Deintyddol GIG Cymru? | Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr sy’n gyfrifol am brosesu ceisiadau ac am anfon cadarnhad o'r holl daliadau cymeradwy er mwyn i Brifysgol Caerdydd eu prosesu.<br><br>Prifysgol Caerdydd sydd yn gyfrifol wedyn am wneud y taliadau i Fyfyrwyr, ni waeth ym mha Brifysgol yr ydych yn astudio. |
| | Pryd caiff Bwrsariaeth Feddygol a Deintyddol GIG Cymru ei thalu? | Caiff Bwrsariaethau Meddygol a Deintyddol GIG Cymru eu talu mewn tri rhandaliad cyfartal yn ystod y flwyddyn academaidd.<br><br>Bydd y rhandaliad cyntaf yn cael ei dalu ym mis Medi, yr ail ym mis Ionawr a'r olaf ym mis Ebrill. |
| | A yw Bwrsariaeth Feddygol a Deintyddol GIG Cymru yn cael ei thalu ar ddyddiadau penodol o’r flwyddyn? | Nac ydy – Nid yw’r taliadau’n cael eu gwneud ar ddyddiadau penodol, ond fel arfer cânt eu talu tua dechrau’r mis. |
| | Pam mae fy nhaliadau wedi dod i ben? | Bydd eich taliadau’n dod i ben os ydych chi ar gyfnod o gymryd seibiant o’ch astudiaethau neu wedi gadael eich cwrs.<br><br>Neu, gallai ddigwydd am nad ydym wedi cael cais newydd gennych ar gyfer y flwyddyn Academaidd ddiweddaraf. Cyn dechrau pob blwyddyn Academaidd, rhaid cwblhau a chyflwyno cais newydd er mwyn sicrhau unrhyw gyllid ar gyfer y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Os yw eich taliadau wedi dod i ben a chithau ddim yn gwybod pam, cysylltwch â ni drwy ddanfon e-bost neu ffonio a gallwn ymchwilio i hyn ar eich rhan. |
| **Cyrsiau Rhyngosod** | | |
| | A fyddech chi'n ariannu blwyddyn ryngosod i fyfyrwyr Meddygol / Deintyddol? | **Israddedigion Meddygol neu Ddeintyddol**<br><br>Os ydych chi wedi cymryd blwyddyn ryngosod er mwyn gwneud cwrs Baglor neu Feistr (ond nid doethuriaeth), mae'n bosibl y bydd gennych hawl i dderbyn Bwrsariaeth gan y GIG o'ch pumed flwyddyn astudio ymlaen, ni waeth pryd y bydd y flwyddyn ryngosod yn dechrau.<br><br>***Enghreifftiau:***<br><br>Blwyddyn 1 cwrs meddygol Cyllid SLC,<br>Blwyddyn 2 cwrs meddygol Cyllid SLC,<br>Blwyddyn 3 cwrs meddygol Cyllid SLC,<br>Blwyddyn 4 cwrs meddygol Cyllid SLC,<br>**Blwyddyn 5 blwyddyn ryngosod Cyllid GIG, Blwyddyn 6 cwrs meddygol Cyllid GIG**<br><br>Blwyddyn 1 cwrs meddygol Cyllid y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC), Blwyddyn 2 cwrs meddygol Cyllid SLC, Blwyddyn 3 blwyddyn ryngosod Cyllid SLC, Blwyddyn 4 cwrs meddygol Cyllid SLC<br>**Blwyddyn 5 cwrs meddygol Cyllid GIG,**<br>**Blwyddyn 6 cwrs meddygol Cyllid GIG**<br><br>**Myfyrwyr Meddygol neu Ddeintyddol ar Gyrsiau Mynediad i Raddedigion**<br><br>Mae'n bosibl y bydd hawl gennych i dderbyn Bwrsariaeth gan y GIG o'ch ail flwyddyn astudio ymlaen, ni waeth pryd y bydd eich blwyddyn ryngosod yn digwydd.<br><br>***Enghraifft:***<br><br>Blwyddyn 1 cwrs meddygol Cyllid SLC, Blwyddyn 2 cwrs meddygol Cyllid SLC, Blwyddyn 3 cwrs meddygol Cyllid SLC, Blwyddyn 4 blwyddyn ryngosod Cyllid GIG, Blwyddyn 5 cwrs meddygol Cyllid GIG<br><br>Os byddwch yn cymryd cyfnod rhyngosod er mwyn gwneud cwrs 2 neu 3 mlynedd ar lefel Doethuriaeth, ni fyddwch yn gymwys i gael cymorth gan Fwrsariaeth GIG ar gyfer y cyfnod, ond mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael cyllid GIG am fwy nag un cyfnod rhyngosod. |

| | | |
|---|---|---|
| | Sut ydw i’n dewis manylion fy nghwrs os ydw i’n gwneud cais am flwyddyn ryngosod ar ganol cwrs meddygol neu ddeintyddol? | Os ydych yn gwneud eich cais am fwrsariaeth ar gyfer blwyddyn ryngosod, rhaid i chi ddewis y teitl cwrs sy'n cynnwys 'blwyddyn ryngosod'.<br><br>***Enghraifft:***<br><br>Medical (blwyddyn ryngosod) – 12 mis |

| | | |
|---|---|---|
| | | Os ydych chi wedi dewis cwrs sy'n cynnwys blwyddyn ryngosod, bydd modd i chi ddewis 'blwyddyn ryngosod' fel blwyddyn cwrs ar y gwymplen yn y system.<br><br>Os byddwch yn cymryd eich blwyddyn ryngosod mewn prifysgol wahanol, dewiswch y brifysgol lle byddwch yn astudio ar gyfer y flwyddyn ryngosod honno ac wedyn, ar ôl dychwelyd i'ch prif brifysgol ar gyfer y flwyddyn olaf, dewiswch eich prif brifysgol ar gyfer eich blwyddyn olaf o astudio er mwyn dod â'r broses i ben. |
| **3. Treuliau Lleoliad Ymarfer** | | |
| | Pwy sy'n gallu hawlio? | Mae pob myfyriwr a gyllidir gan GIG Cymru sydd wedi derbyn Hysbysiad o Ddyfarniad gan Wasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr, yn gymwys i wneud cais. |
| | Pa dreuliau teithio gaf i eu hawlio? | Dim ond am gostau teithio o'ch cyfeiriad yn ystod y tymor i'ch lleoliad ymarfer y cewch chi hawlio. Cewch hawlio am unrhyw gostau teithio/milltiroedd hefyd, os oes rhaid ichi deithio yn y gymuned i leoliadau ymarfer eraill, a/neu i gartrefi cleifion os nad oes trafnidiaeth am ddim gennych chi. Dylech chi ddefnyddio'r dull rhataf o deithio, gan fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gynlluniau teithio am ddim neu gynlluniau teithio rhatach. Os ydych chi'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cewch chi hawlio am gost eich tocynnau, gan gynnwys costau cario'ch bagiau a'ch beiciau. (Sylwer mai ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir costau tacsis. Ni allwch hawlio am gostau tocynnau awyren.) Bydd rhaid ichi gadw pob derbynneb (h.y. tocynnau bws/trên, tocynnau parcio, derbynebau twneli a thollau) a'u cynnwys gyda'ch cais fel prawf o'r teithiau a wnaed. **Ni chaiff ceisiadau heb dderbynebau ad-daliad.** |
| | Sut ydw i'n gwneud cais am dreuliau llety a theithio? | Bydd angen i chi lawrlwytho ffurflen Hawlio Treuliau Lleoliad Ymarfer (PPE) o'n gwefan a llenwi'r holl adrannau perthnasol. Ar ôl i chi wneud hyn, bydd angen i chi ei anfon at y Swyddog Lleoliadau Ymarfer yn eich prifysgol ynghyd â thystiolaeth ategol wedi'i marcio'n glir â'ch rhif cyfeirnod Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr. Yna bydd eich prifysgol yn gyfrifol am wirio'r dystiolaeth a'i hanfon yn ôl i flwch derbyn Dyfarniadau Myfyrwyr ABM.SAS@wales.nhs.uk.<br><br>Ar ôl ei dderbyn, bydd y Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr yn prosesu eich cais ac yn cysylltu â chi os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ynghyd â'r ffurflen, bydd gofyn iddyn nhw rhoi e-bost eglurhaol yn gwirio'r costau.<br><br>Y brifysgol sy'n penderfynu a yw'r costau teithio yn berthnasol, ac felly bydd angen ei hawdurdodiad arnom cyn i ni wneud unrhyw daliadau.<br><br>Dylech hefyd sicrhau bod eich cyfeirnod wedi'i nodi'n glir yn y blwch priodol. Ni allwch hawlio costau lleoliad cyn cael eich cyfnod ar leoliad. |
| | A oes terfyn amser ar gyfer hawlio treuliau teithio a llety? | Oes - Er mwyn ystyried hawliadau, rhaid i ni dderbyn eich ffurflen hawlio Costau Lleoliad Ymarfer (PPE) o fewn 6 mis i ddiwrnod olaf y lleoliad. |
| | A fydda i'n cael hawlio treuliau am leoliad Dewisol? | Os yw eich lleoliad dewisol yn y DU, byddwn yn gallu ad-dalu'r costau teithio. Fodd bynnag, os yw'r lleoliad dewisol y tu allan i'r DU, byddwn ond yn gallu ad-dalu eich costau teithio i'r maes awyr yn y DU ac oddi yno. |
| | A fydda i'n gallu hawlio costau nwyddau traul a chostau brechu ar gyfer lleoliad dewisol? | Na – ni fyddwch yn gallu hawlio costau nwyddau traul a chostau brechu ar gyfer lleoliad Dewisol. |
| | A fydda i'n gallu hawlio treuliau am fynd â theithiwr i leoliad? | Dim ond ar gyfer teithwyr sydd hefyd yn cael eu hariannu gan GIG Cymru y cewch wneud hawliad. Ni fyddwch yn gallu gwneud hawliad am deithiwr sy'n cael ei ariannu gan y GIG yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon. |
| | Pryd fydd fy Nhreuliau Lleoliad Ymarfer yn cael eu had-dalu? | Bydd hawliadau Treuliau Lleoliad Ymarfer (PPE) yn cael eu prosesu o fewn 20 diwrnod gwaith o ban gawn y ffurflen wedi'i sganio gan y Tîm Sganio Dogfennau neu'r Brifysgol.<br><br>Unwaith y bydd yr hawliad wedi cael ei brosesu, byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau'r swm dyledus ac yn cadarnhau y bydd Prifysgol Caerdydd yn gwneud y taliad i'ch cyfrif o fewn 4 wythnos o ddyddiad yr e-bost |
| | A gaf i ddefnyddio fy ngherbyd fy hun? | Cewch, gallwch ddefnyddio'ch cerbyd neu'ch beic eich hun a gallwch hawlio'r cyfraddau canlynol ar gyfer pob milltir:<br><br>- Beic 20 ceiniog y filltir<br><br>- Cerbydau modur 27 ceiniog y filltir |

| | | |
|---|---|---|
| | | cadarnhad gan eich yswirwyr bod gennych yswiriant digonol ar gyfer yr holl gostau a hawliadau ac na roddir unrhyw atebolrwydd ar eich prifysgol nac unrhyw gorff GIG, a dylid hysbysu eich prifysgol yn unol â hynny.<br><br>Cewch hawlio’r cyfraddau canlynol fesul milltir:<br><br>• Beic 20 ceiniog y filltir<br><br>• Cerbydau modur 27 ceiniog y filltir |
| | A gaf i hawlio costau eraill? | NI chewch hawlio costau tacsis, oni bod eich prifysgol yn cadarnhau trwy lythyr, a hynny mewn amgylchiadau eithriadol, nad oedd unrhyw ddewis arall. Yn yr achos hwn, mae ad-daliadau o gostau tacsi wedi eu cyfyngu i’r gyfradd uchaf ar gyfer cerbydau modur (h.y. 27 ceiniog y filltir). Ni chaniateir i chi hawlio costau cildyrnau, gwelyau ar drên ayb a galwadau ffôn, nac unrhyw dreuliau eraill sy’n gysylltiedig â’ch lleoliad, ac felly ni fyddan nhw’n cael eu had-dalu. Ni chewch hawlio costau tocynnau awyren, ond gallwch hawlio costau trafnidiaeth gyhoeddus o’ch cyfeiriad yn y DU yn ystod y tymor i faes awyr yn y DU, ar yr amod eich bod yn cyflwyno derbynebau priodol. |
| | A fydd fy mwrsariaeth yn cynyddu tra byddaf i ar leoliad? | Caiff swm eich bwrsariaeth ei bennu’n rhannol gan ble rydych chi’n byw yn ystod y tymor. Caiff myfyrwyr sy’n byw gyda’u rhieni y gyfradd “Cartref”, a chaiff y rhai nad ydynt yn byw gyda’u rhieni naill ai gyfradd “Yn Rhywle Arall” neu Gyfradd “Llundain”, os ydynt yn byw yn Llundain. Nod y fwrsariaeth, ynghyd ag unrhyw gyfraniad asesedig a’ch Benthyciad i Fyfyrwyr (lle y bo’n berthnasol) yw’ch cynorthwyo i dalu costau byw beunyddiol, gan gynnwys costau’ch llety yn ystod y tymor. Fodd bynnag, os oes raid i chi symud o'ch cyfeiriad yn ystod y tymor i fynychu lleoliad clinigol, efallai y bydd eich bwrsariaeth yn cynyddu dros dro.<br><br>Er enghraifft: Os ydych chi fel arfer yn byw gyda’ch rhieni ond yn gorfod symud i ffwrdd i fynd ar leoliad, efallai y bydd eich bwrsariaeth yn cael ei godi i’r gyfradd “Rhywle Arall” os yw’r lleoliad y tu allan i Lundain, neu i gyfradd “Llundain” os yw’r lleoliad yn Llundain. Os ydych yn cael y gyfradd “Rhywle Arall” fel arfer ond yn gorfod symud i Lundain i wneud lleoliad, efallai y bydd eich bwrsariaeth yn cael ei godi i gyfradd “Llundain”. |